

Lansio ap Dechrau'n Deg i gysylltu â theuluoedd

Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin yw'r Dechrau'n Deg cyntaf yng Nghymru i lansio ap symudol yn helpu teuluoedd Dechrau'n Deg i gadw mewn cysylltiad yn ystod pandemig y coronafeirws.

Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg. Mae'n cefnogi teuluoedd sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru gyda'r nod o roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant o dan bedair oed.

Datblygodd y tîm yr ap i gynyddu cyswllt, ac i gyfeirio teuluoedd at wybodaeth bwysig a hyrwyddo digwyddiadau yn yr ardaloedd lleol. Gellir defnyddio'r ap hefyd i anfon gwahoddiadau calendr i deuluoedd i fynd i grwpiau babanod a chlinigau galw heibio gyda'r ymwelwyr iechyd, yn ogystal â rhannu lluniau a gwybodaeth am wasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg â rhieni.

Mae'r ap wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol yn ystod cyfnod y coronafeirws i gyfathrebu â theuluoedd trwy ddefnyddio hysbysiadau gwthio i roi gwybodaeth am COVID-19 ac i gyfeirio teuluoedd at ffynonellau dibynadwy.

Mae tîm Iaith a Chwarae Dechrau'n Deg wedi bod yn defnyddio'r ap i gynnal fideos canu ac amser stori. Dywedodd Amy, rhiant o Drimsaran:

“Rwy'n credu bod yr ap yn wych, ac mae fy mab Isaac wrth ei fodd yn gwyllo'r straeon arno.”

Dywedodd y Cyngorydd Glynog Davies, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant: “Er bod yr ap yn cael ei ddatblygu ymhell cyn i ni hyd yn oed wybod am y coronafeirws, mae wedi bod yn fuddiol iawn o ran helpu'r tîm i gadw mewn cysylltiad a gadael i deuluoedd wybod eu bod yn dal yno ar eu cyfer yn ystod y cyfnod adodd hwn.

Mae'r ap yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho ac mae ar gael ar IOS ac Android, chwiliwch amdano yn Siop Google Play neu Siop Apiau Apple.

I gael rhagor o wybodaeth am Dechrau'n Deg, ewch i wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin [fis.carmarthenshire.gov.wales](https://www.fis.carmarthenshire.gov.wales).